

# Chwaraeon RhCT Astudiaeth Achos

## Rhaglen Llysgenhadon Ifainc 2021-22

Prif ddiben y Rhaglen Llysgenhadon Ifainc yw datblygu sgiliau arweinyddiaeth pobl ifainc. Ein rôl ni yw recriwtio, hyfforddi a chefnogi pobl ifainc i ddod yn Llysgenhadon Ifainc yn eu hysgolion a'u cymunedau. Rôl y Llysgenhadon yw hyrwyddo chwaraeon ac ymarfer corff, a chymell ac ysbrydoli eraill i fod yn heini yn eu hysgol neu'r gymuned ehangach. Derbynion ni dros 100 o geisiadau eleni - rhai gan y Llysgenhadon eu hun ac eraill wedi'u henwebu gan eu hysgolion. Cynhalion ni bedair cynhadledd yn ystod tymor yr Hydref er mwyn croesawi'r Llysgenhadon i'r rhaglen. Aeth y Llysgenhadon Efydd ac Arian trwy broses gyfweled er mwyn inni ddewis pedwar Llysgennad Aur i'n cynrychioli ni yng Nghynhadledd Cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Aeth y Llysgenhadon yma i'r achlysur rhithiol a llwyddon nhw i gipio gwobr.

Roedd hefyd gan y Llysgenhadon Efydd ac Arian gyfle i gymryd rhan mewn achlysur 'Dragon's Den'. Roedd yr achlysur yma'n gyfle iddyn nhw gynnig syniad am brosiect er mwyn derbyn cyllid. Cymerodd deg Llysgennad o ddwy ysgol ran yn y gynhadledd, a derbyniodd y ddwy ysgol gyllid i ariannu eu prosiectau. Cynhaliodd yr ysgolion ymgynghoriadau a mynd ati i holi unigolion sydd ddim yn byw'n heini. Diben y prosiectau yw cryfhau cysylltiadau clybiau cymuned mewn ardaloedd

difreintiedig a chynnig cyfleoedd newydd a gwahanol i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff.

Mae ein carfan wedi gweithio'n agos â'r Llysgenhadon Ifainc i ddatblygu prosiectau. Yn sgil y pandemig, rydyn ni wedi cyfathrebu â'r Llysgenhadon yn rhithiol yn bennaf. Rydyn ni wedi cynnal cyfarfodydd bob tymor fel bod cyfle i'r Llysgenhadon drafod arferion da a dysgu o'i gilydd. Rydyn ni wedi ein siomi ar yr ochr orau â'r ystod o brosiectau mae'r Llysgenhadon wedi gweithio arnyn nhw. Mae'r prosiectau yma wedi cynyddu nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ogystal â datblygu lles ac iechyd meddwl y disgyblion.



*“Rwy' wir yn mwynhau'r cyfle i gael effaith gadarnhaol ar fy ysgol a'r gymuned. Rydw i'n awyddus iawn i wneud gwahaniaeth yma.”*

